


I WELLA'R GOFAL A DDARPERIR I BLANT A PHOBL IFANC SY'N CAEL LAWDRINIAETH ANNHEWISOL

Adolygodd NCEPOD ofal plant a phobl ifanc a gafodd driniaeth frys (annhewisol) rhwng dau gyfnod amser i gyfrif am amrywiad tymhorol (17 Mehefin i 30 Mehefin 2024 a 12 Chwefror i 25 Chwefror 2024). Adolygwyd yr ofal gan ddefnyddio 853 o setiau o nodiadau cleifion, 679 o holiaduron llawfeddygaeth, 760 o holiaduron nwyanyddiaeth a 143 o holiaduron trefniadol, yn ogystal â dros 600 o ymatebion i arolwg.

	1. Darparu mynediad brydlon at ofal llawfeddygol a nwyanyddol brys gan arbenigwyr sydd â'r hyfforddiant a'r profiad perthnasol i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc.		
	AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD		
	Nid oedd rhwydweithiau wastad ar waith ac roedd diffyg llwybrau neu weithdrefnau strwythuredig i drosglwyddo cleifion pan oedd angen, er bod trosglwyddiadau yn gyffredin.	Roedd 19/143 o ysbytai (13.3%) nad oeddent yn rhan o rwydwaith gofal ar gyfer gweithdrefnau annhewisol mewn plant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o ysbytai yn adrodd eu bod yn trosglwyddo cleifion allan ar gyfer llawdriniaeth (133/143; 93.0%).	Dim ond 287/629 o gleifion (45.6%) a ddechreuodd ar lwybr penodol ar gyfer llawdriniaeth frys mewn plant a phobl ifanc. Dylai llawer o'r cleifion nad oeddent arno fod wedi bod (83/255; 32.5%).
	2. Dylai un neu fwy o gydlynwyr llawdriniaethau brys fod ar waith er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc sydd angen llawdriniaeth frys gael mynediad at theatr.		
	AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD		
	Dangoswyd bod gofal yn well mewn canolfannau lle'r oedd cydlynnydd llawdriniaethau brys ar gael, ond nid oedd rhywun yn y rôl hon bob amser ac, yn ogystal, prin y nodwyd unrhyw amserlenni gan y systemau archebu theatr.	Adroddodd adolygwyr, er bod y rhan fwyaf o gleifion wedi trefnu eu gweithdrefnau heb oedi (722/756; 95.5%) (anhysbys ar gyfer 97), bod 19/34 o gleifion wedi profi oedi gyda/yn y tîm llawfeddygol.	Dim ond mewn 60/143 o ysbytai (42.0%) yr oedd rheolwyr neu glinigogion cydlynu theatr ar gael. Dim ond 52/143 o ysbytai (36.4%) oedd â chlinigwr yn gyfrifol am asesu capasiti yn y theatrau ar sail ddyddiol.
	3. Atal plant a phobl ifanc sy'n aros am llawdriniaeth frys rhag cael eu cadwheb fwyd am unrhyw gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol.		
	AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD		
	Prin oedd y cofnodi o gyfnodau ymprydio mewn polisïau ysbytai ar gyfer gweithdrefnau brys i blant a phobl ifanc, ac roedd llawer o gleifion yn cael eu cadw heb fwyd am gyfnod rhy hir cyn llawdriniaeth.	Yn ôl barn yr adolygwyr, roedd 125/718 o gleifion (17.4%) wedi ymprydio am gyfnod rhy hir, gyda'r rhai a gafodd weithdrefn gyflymedig fwyaf tebygol o fod yn y categori hwn.	Roedd y paratoad cyn gweithdrefn yn ddigonol ar gyfer y mwyafrif o gleifion (798/853; 93.6%), fodd bynnag, roedd ymprydio (10/55) yn faes cyffredin ar gyfer ei wella.